



POLISI COFRESTRU ENWAU PARTH AR CYFER .CYMRU A .WALES

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Disgwyliadau
3. Adrodd am gamddefnydd

1. CYFLWYNIAD

Mae Nominet yn ymroddedig i sicrhau bod y rhynggrwyd yn rym er daioni. Er mwyn sicrhau bod yr enwau parth lefel uchaf .cymru a .wales yn cael eu cofrestru a'u defnyddio yn unol â'r nod hwnnw, mae'n rhaid i bob enw parth a gofrestrir yn y parth lefel uchaf gydymffurfio â'r polisi canlynol.

2. DISGWYLIADAU

Mae Nominet yn cadw'r hawl, yn ôl ei ddisgresiwn, ar unrhyw adeg ac yn ddi-gyfyngiad, i wrthod, canslo, atal, ailgyfeirio neu drosglwyddo unrhyw gofrestrriad neu drafodyn, neu osod clo ar enw parth cofrestrfa, neu ddal gafael arno neu osod statws tebyg arno fel y gwêl yn angenrheidiol am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

- Diogelu uniondeb a sefydlogrwydd y cofrestrfeydd ar gyfer yr enw parth lefel uchaf, neu unrhyw rai o'i gofrestrfeydd eraill;
- Cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau, rheolau neu ofynion llywodraeth perthnasol, ceisiadau gorfodi'r gyfraith, neu unrhyw broses datrys anghydfodau;
- Osgoi unrhyw atebolrwydd, sifil neu droseddol, ar ran Nominet, yn ogystal â'i gwmnïau cysylltiedig, ei is-gwmnïau, ei swyddogion, ei gyfarwyddwyr, a'i weithwyr;
- Fel sy'n unol â thelerau unrhyw gytundeb cofrestru perthnasol, neu'r cytundeb rhwng y Gofrestrfa a'r Cofrestrai ar gyfer yr enw parth lefel uchaf;
- Cywiro camgymeriadau a wnaed gan Nominet neu Gofrestrai sy'n gysylltiedig â chofrestru enw parth;
- Fel sy'n angenrheidiol wrth ddatrys anghydfod;
- Lle byddai deiliad yr enw cofrestredig wedi methu â darparu gwybodaeth a manylion cyswllt cywir a chyfredol, gan gynnwys enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost;
- Lle byddai enw parth yn cael ei ddefnyddio - neu bod risg uchel iddo gael ei ddefnyddio - ar gyfer gweithred anghyfreithlon, aflonyddgar, maleisus, neu dwyllodrus, gan gynnwys at y dibenion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: dosbarthu maleiswedd, gweithredu botrwydau, gwe-rwydo, lladrad, torri hawlfraint neu nod masnach, cyflawni arferion twyllodrus neu gamarweiniol, ffugio neu gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n groes i gyfraith berthnasol; neu
- Lle byddai'r enw parth yn cael ei ddefnyddio at ddiben anghyfreithlon.
- Lle byddai'r enw parth, ar yr wyneb, (i) yn tueddu i ddangos, cynnwys neu hyrwyddo trosedd rywiol ddifrifol, a (ii) lle nad oes unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r enw parth y gellid ei ystyried yn rhesymol.

3. ADRODD AM GAMDDEFNYDD

Gellir adrodd am achosion o gamddefnydd, gan gynnwys torri amodau'r polisi yma, i abuse@ourhomeonline.wales. Bydd Nominet yn ymchwilio ac yn cymryd camau priodol, sy'n gyson â'r polisi hwn a'i rôl fel cofrestrfa'r enw parth lefel uchaf, pan fydd unrhyw adroddiad o'r fath yn dod i law.